

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository:<https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/154454/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Loeffler, Marion 2022. 'Hen Wlad Fy Nhadau' a 'The Land of My Fathers': Diwylliant Darostyngol yng Ngwasanaeth yr Ymerodraeth. *Llafur: the Journal of Welsh People's History* 13 , pp. 67-81.

Publishers page:

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



‘Hen Wlad Fy Nhadau’ a ‘The Land of My Fathers’: Diwylliant Darostyngol yng Ngwasanaeth yr Ymerodraeth

Arddengys hanes diweddar ‘Yma o Hyd’ – cân a ysgrifenydd gan Dafydd Iwan ym 1983 ac a ddynodwyd ym 2022 yn ‘Gân Swyddogol Tîm Cymru’ Cwpan Pêl Droed y Byd gan Gymdeithas Pêl Droed Cymru – natur cymhleth caneuon poblogaidd a chenedlaethol. Maent yn amlygu cyflwr cymdeithasol a *Zeitgeist* cyfnod yn ogystal â dylanwadu ar deimladau a datblygiad bellach cymdeithas, drwy berfformiadau – fel y dengys y fideo newydd a ryddhawyd gan y Gymdeithas Pêldroed – drwy eiriau newydd, a thrwy defnyddio eu statws eilunaidd fel berysgrifen o feddwl carfan o bobl, o genhedloedd neu ymerodraethau.

Nid ‘Yma o Hyd’ yw ffocws yr erthygl hon, ond y ffordd y dengys defnyddiau ac ail-eiriadau ‘Hen Wlad Fy Nhadau’ a ‘The Land of My Fathers’ statws cyfrannol, darostyngol diwylliant a chenedligrwydd y Cymry cyn y Rhyfel Mawr: yn eilaidd i’r diwylliant Saesneg a Seisnig hegemoniaidd ac yn awyddus i gyfrannu at brosiectau ymerodrol Prydain Fawr.¹ Adlewyrcha perfformiadau cyhoeddus, ail-ysgrifennu geiriau a defnyddio’r ymadrodion ‘Hen Wlad Fy Nhadau’ a ‘The Land of My Fathers’ fel arwyddeiriau dueddiadau ehangach sydd wedi eu hamlinellu gan haneswyr megis Hywel Teifi Edwards a Paul O’Leary. Fel yr esbonia’r olaf, gan ffocysu ar ffigyrau canolog megis R. J. Derfel a Henry Richards, yr oedd yr ‘ymdeimlad o Brydeindod yn rhan annatod o wladgarwch Cymreig, nid yn ychwanegiad ato’.² Mae awduron megis Gwyn Griffiths wedi adrodd yn fanwl gefndir creu ‘Hen Wlad Fy Nhadau’ fel ‘Glan Rhondda’ yn gydwraith tad a mab Ieuan ac Iago ym Mhontypridd, un yn cyfansoddi’r

¹ Defnyddir yma y cysyniadau hegemoniaidd a darostyngol, yn y ffordd a’u diffiniwyd gan Antonio Gramsci a’u datblygwyd ers hynny, y cyntaf yn dynodi carfan neu genedl sydd â’r pŵer i osod normau diwylliannol a chymdeithasol, yr ail yn bobl, carfannau cymdeithasol neu genhedloedd sydd yn gorfod symud y tu fewn i’r fframweithiau normadol hyn, ac yn aml eu mewnoli er mwyn ymddangos yn briodol i’r disgwrs hegemoniaidd hwn. Gweler Marion Löffler, ‘6 Ôl-strwythuraeth a’r Tro Diwylliannol: Rhywedd, Dwyreinioldeb ac Ôl-drefedigaethedd’, yn Meilyr Powel a Gethin Matthews (goln), *Llunio Hanes. Hanesyddiaeth a Chrefft yr Hanesydd* (Cardiff, 2022), tt. 129–154.

² Paul O’Leary, ‘Ieithoedd Gwladgarwch yng Nghymru 1840-1880’, yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg. Yr Iaith Gymraeg a’i Pheuoedd 1801-1911* (Caerdydd, 1999), t. 513.

geiriau a'r llall yr alaw,³ ei hanes cynnar fel 'cân boblogaidd' oedd 'plant yn ei chanu a'i chwibanu ar hyd strydoedd Pontypridd', a'r agraffiadau cyntaf gyda fersiwn Saesneg cyntaf Eben Fardd (Thomas Ebenezer, 1802–1863).⁴ Y mae ef, Rhidian Griffiths a Sion Jobbins wedi esbonio sut daeth y gân yn rhan o gymdeithas gerddorol ac eisteddfodol cymoedd diwydiannol de Cymru bron â bod ar unwaith, a'i hanes yn dilyn Eisteddfod Fawr Llangollen 1858 pan ddyfarnwyd y wobwr am y casgliad gorau o alawon heb eu cyhoeddi i Lewelyn Alaw gan Owain Alaw (John Owen, 1821–1883).⁵ Yr wyf yn tynnu ar eu gwaith yn ogystal, ond yn canolbwyntio ar gymhlethdod hanes cynnar ein hanthem genedlaethol yn hytrach na narratif am sut yr enillodd ei le'yng nghalon y genedl'.⁶

Pan gynhwysodd Owain Alaw hi yn ei *Gems of Welsh Melody. A Selection of Popular Welsh Songs with English and Welsh Words*, ym 1860, ychwanegodd 'English words, with Symphonies, Accompaniments and Chorus, by Owain Alaw' a'r teitlau 'Hen Wlad Fy Nhadau. Land of My Fathers'.⁷ Diddorol yw nodi, wrth fynd heibio, ei fersiwn Saesneg yn pwysleisio mamau yn lle 'yr hen iaith', o bosib oherwydd y gynulleidfa darged wahanol, a'r cytgan nawr yn datgan: 'Wales, Wales, my mother's sweet home is in Wales. Till death be pass'd my love shall last, my longing, my **hiraeth* for Wales'.⁸ Yn berfformiwr a chaneuwr poblogaidd dros ben, Owain Alaw a sicrhodd hefyd bod y gân yn ennill ei thir fel 'corws' poblogaidd nes iddi gael ei hadnabod fel 'corws', 'cân' ac anthem genedlaethol y Cymry ym

³ Gwyn Griffiths, *Gwlad fy Nhadau: Ieuan, Iago, eu Hoes a'u Hamserau* (Llanrwst, 2006), tt. 17–25.

⁴ Fel yr uchod, tt. 28–9.

⁵ Rhidian Griffiths, 'Hen Wlad Fy Nhadau in its Musical Context', *Morgannwg*, 51 (2007), 6–18; Mae nifer o lyfrynnau yn adrodd hanes y gân.

⁶ G. Griffiths, *Gwlad Fy Nhadau*, t. 39.

⁷ John Owen (Owain Alaw, Pencerdd), *Gems of Welsh Melody. A Selection of Popular Welsh Songs with English and Welsh Words, after the Manner of North Wales, National Airs ...* (Ruthin, 1860). Dyma'r cyntaf o bedair gyfrol. Defnyddir y sillafiad gwreiddiol yn holl ddyfyniadau'r erthygl hon.

⁸ 'Hen Wlad Fy Nhadau. Land of My Fathers', yn Owen, *Gems of Welsh Melody*, tt. 18–19.

1953.⁹ Drwy ei chynnwys o dan y teitlau newydd ‘Hen Wlad Fy Nhadau’ a ‘Land of My Fathers’, paratodd y tir ar gyfer statws megis arteffact eiconig a ellid eu defnyddio ar gyfer ystod eang o bwrpasau. Archwilir rhai ohonynt yn yr erthygl hon.

Perfformiadau

Yn y 1860au, yr oedd Owain Alaw yn ffigwr canolog yn niwylliant cerddorol y Cymry,¹⁰ yn teithio hyd a lled y wlad i ganu mewn eisteddfodau, cyngerddau a chyfarfodydd.¹¹ Un o lu o ganeuon ‘corws’ y cyflwynai’n rheolaidd, gan ei bod hawdd i’w ganu gan gynulleidfa gyfan ac yn ffefrynnau cystadleuthau corawl oedd ‘Hen Wlad fy Nhadau’. Yn ôl Griffiths, canwyd hi’n gyntaf yn eisteddfod Capel Seion (Wrecsam) ddydd Nadolig 1859.¹² Ceir, ar 1 Chwefror 1861, adroddiad am ei chanu dan y teitl ‘Hen Wlad fy Nhadau’ yng nghyngerdd Nadolig Capel Penuel, Roach, a rydd argraff o’i statws fel chorws:

Canwyd ‘O paid gormesu’r gweithiwr tlawd’, gan Mr. J. Gronow. Da iawn. ‘Cartrefle y Cymru.’ Triawd, ‘Yr Eos’. *Song and chorus*, ‘Hen wlad fy nhadau’. Canwyd y *Solo* gan arweinydd y côr’. Yr oedd hon yn hynod o effeithiol drwyddi. ‘O dewch i’r mynyddoedd’, o ‘Oriau’r Hwyr’. Y miwsig wedi ei addasu gan Owain Alaw. Yn nesaf, canwyd yr hen dôn adnabyddus, ‘O Willie, we have missed you’, gan J. M. Davies, nes oedd pob calon yn teimlo.¹³

⁹ Gweler, e. e., Gweler Harri Webb, *Our National Anthem. Some Observations on Hen Wlad fy Nhadau* (Merthyr Tydfil, 1964); Sion Jobbins, *The Welsh National Anthem. Its Story, its Meaning* (Talybont, 2013).

¹⁰ Am boblogrwydd anhygoel Owain Alaw gweler yr adroddiad am ei ymweliad i dde Cymru yn y *Pontypool Free Press and Herald of the Hills*, 6 Ionawr 1861.

¹¹ G. Griffiths, tt. 37–41.

¹² G. Griffiths, t. 37.

¹³ *Seren Cymru*, 1 Chwefror 1861.

Un corws ymhlith llawer roedd hi o hyd,¹⁴ ond yn nhrefl y misoedd a'r adroddiadau, sylwn i 'Hen Wlad fy Nhadau' neu 'Mae Hen Wlad fy Nhadau' weithio ei ffordd at ddiwedd cyngerddau yn araf bach, safle oedd yn cyfleu statws a phwysigrwydd. Mor gynnar â mis Awst 1861, adroddwyd o eisteddfod gyntaf capel Ebenezer Abertawe y 'terfynwyd y cyfarfod gan yr holl gorau yn cydganu y chorus "Mae Hen Wlad Fy Nhadau"'.¹⁵ Eto i gyd, er y magai ansoddeiriau megis 'cenedlaethol' a 'patriotic', ni chafodd yr anrhydedd o gloi achlysur. Yn hytrach, clymwyd hi at yr anthem cenedlaethol 'God Save our Gracious Queen', a 'Rule Britannia' arv adegau, a berfformiwyd yn olaf ar achlysuron cyhoeddus, yn arwydd o statws cyfranogol, darostyngol diwylliant y Cymry, a mynegiant teyrngawrch i'r teulu brenhinol poblogaidd a'r uned wleidyddol fwy. Gwir, bu'r gân – neu berfformiad Owain Alaw – mor boblogaidd yn Aberdâr i'r gynylleidfafa alw 'drachefn a thrachefn am *encore*', ond 'terfynwyd Eisteddfod y Gwir Iforiaid am 1861 drwy gydganu "God Save the Queen"' fel arfer.¹⁶ Fe allai sesiwn prynhawn cyngerdd yr 'Aberystwyth Literary Society' orffen gyda'r 'delightfully patriotic song ... the audience rising and joining in chorus', ond daeth y cyngerdd cyfan i ben 'with the National Anthem'.¹⁷ Eithriadau oedd perfformio 'Hen Wlad fy Nhadau' yn olaf neu ar ei phen ei hun, yn hytrach na'r norm diwylliannol, ac ni wnaed hyn heb ennyn beirniadaeth, fel y gwelir yn y man.¹⁸

Tra bod safle'r anthem genedlaethol Prydeinig y tu hwnt i bob amheuaeth, cystadlai 'Hen Wlad Fy Nhadau' â sawl 'corws cenedlaethol' neu ganeuon 'gwladgarol' ar achlysuron cyhoeddus drwy gydol degawdau olaf y pedwaredd ganrif ar bymtheg. Y clasur 'Rhyfelgyrch Gwŷr Harlech', a gyhoeddwyd yn gyntaf ym 1794,¹⁹ ac a agorodd *Gems of Welsh Melody*

¹⁴ Am gyfoeth diwylliant cerddorol eisteddfodol y cyfnod gweler *Hywel Teifi Edwards, Gŵyl Gwalia: Yr Eisteddfod yn Oes Aur Victoria* (Llandysul, 1980), tt. 189–299.

¹⁵ *Y Gwladgarwr*, 3 August 1861.

¹⁶ *Baner ac Amserau Cymru*, 31 Gorffennaf 1861.

¹⁷ *The Welshman*, 8 January 1863.

¹⁸ Gweler hefyd G. Griffiths, tt. 39–40; Jobbins, *The Welsh National Anthem*, tt. 16–17.

¹⁹ [Edward Jones], *Musical and Poetical Relics of the Welsh Bards, Preserved by Tradition and Authentic Manuscripts, from very Remote Antiquity ... By Edward Jones, Bard to the Prince* (London, 1794).

Owain Alaw dan y teitl ‘Molawd Cymru. The March of the Men of Harlech’ oedd un ohonynt.²⁰ Ym 1865 adroddodd y *North Wales Chronicle* ar berfformiad y: well-known national corus, ‘March of the Men of Harlech’ ... by the choir and the Misses Owen joining. On this, as on all occasions, this martial piece was received by loud and continuous cheers and was warmly redemanded.²¹ Ym 1870, cyfansoddwyd geiriau newydd ‘ar y dôn orau yn y byd’ hwn i alw dynion Meirionnydd allan i bleidleisio dros y Blaid Rhyddfrydol yn yr etholiad agos,²² ym 1875 agorwyd Eisteddfod Cross Inn (Llantrisant) ag ‘Ymdaith Gwŷr Harlech’,²³ a daeth ‘Picnic Mawr’ Cymry Ohio i ben ‘drwy i holl gorau uno i ganu “Ymdaith gwyr Harlech”’,²⁴ ac erbyn y 1880au bu’r dôn yn ffefryn bandiau pres yn ogystal.²⁵ Yn ymuno â’r cylch o hen ffefrynnau oedd caneuon newydd o bryd i’w bryd, wedi eu hysgrifennu a’u hyrwyddo gan ffigyrau eraill blaenllaw y diwylliant Cymreig. Dengys hysbysebion cerddorol y cyfnod megis yr un **Ffigwr X** ar dudalennau papurau newydd a chylchgronau Cymru Oes Victoria boblogrwydd Brinley Richards (1818–1895), ei gynnyrch helaeth, a’i gysylltiadau â hoff-berfformwyr y genedl:

²⁰ Owen, *Gems of Welsh Melody*, tt. 5–7.

²¹ *North Wales Chronicle and Advertiser*, 2 December 1865.

²² *Y Dydd*, 14 Ionawr 1870.

²³ *Tarian y Gweithiwr*, 30 Ebrill 1875.

²⁴ *Y Drych*, 15 Gorffennaf 1875.

²⁵ Edwards, *Gŵyl Gwalia*, tt. 249-50,

WELSH NATIONAL FESTIVAL at SWANSEA, Sept. 1.—Mr. LEWIS THOMAS will SING the new National Song, "God Bless the Prince of Wales," and "The Harp of Wales," with a Chorus composed expressly for the Festival by Mr. Brinley Richards.

SWANSEA NATIONAL FESTIVAL.—Miss EDITH WYNNE will SING Brinley Richards's Sacred Song, "The Pilgrim's Path," and the new song in honour of the Princess of Wales, "Daughter of Denmark," on the 2nd and 3rd of September.

SWANSEA NATIONAL FESTIVAL.—The New PART SONG, "Sweet Day so Cool," and the "Boat Song," will be SUNG by a Full Chorus on the 2nd and 3rd of September.

THE PILGRIM'S PATH: Sacred Song. By BRINLEY RICHARDS. Sung by Miss Edith Wynne, with enthusiastic applause. 2s. 6d. "Miss Edith Wynne excited general admiration by her expressive and musicianly rendering of an admirably written sacred song 'The Pilgrim's Path.'—*Morning Post*. London: Robert Cocks and Co.

BRINLEY RICHARDS'S THREE NATIONAL SONGS, sung by Mlle. Parepa and Mr. Sims Reeves: God bless the Prince of Wales, Daughter of Denmark, and The White Cross of Denmark, each 3s. "The success of these songs was so eminent that 'God bless the Prince of Wales will have to look to its laurels.'—*Musical World*. London: Robert Cocks and Co., New Burlington-street, W. All musicsellers.

"**MR. BRINLEY RICHARDS'S NEW NATIONAL SONG, GOD BLESS THE PRINCE OF WALES,** has really become a national song to all intents and purposes. It has gained a decree of popularity similar to that of 'God Save the Queen'—a popularity, too, which promises a similar permanence.—*Illustrated London News*, August 8.
Price of the Song, with chorus ad lib., as sung by Mr Sims Reeves, 3s; as a Four-part Song, 2d; Military Band, 4s; ditto, Orchestra, 4s.
London: Robert Cocks and Co., New Burlington-street W.; Publishers to the Queen, H.R.H. the Prince of Wales and the Emperor Napoleon III.

Ffig. 1: The Welshman, 28 August 1863

Fel y rhan fwyaf o'i gydoeswyr roedd Richards yn fwy na theyrngar i'r teulu brenhinol,²⁶ ac felly ysbrydolwyd ef a'r bardd enwog Ceiriog (John Hughes, 1832-1887) gan briodas Tywysog Cymru Edward Albert (neu 'Berti') ag Alexandra o Denmarc ar 10 Mawrth 1863 i gydweithio ar y gân genedlaethol newydd 'God Save the Prince of Wales', a fyddai'n ffeffryn mewn cyngherddau ac eisteddfodau am weddill y degawd, wedi ei pherffomio gan 'eilunod cenedlaethol' megis Edith Wynne a Llew Llwyfo (Lewis William Lewis, 1831–1901,²⁷ golygydd sawl bapur newydd ac awdur), ac yn agos at statws 'God Save the Queen'. Ar ddiwedd cyfarfod rhwysgfawr i wobrwyo un o drefnwyr Eisteddfod Rhyl 1864, e.e., canodd

²⁶ John Davies, 'Victoria and Victorian Wales', yn Geraint H. Jenkins a J. Beverley Smith (goln), *Politics and Society in Wales 1840–1922* (Cardiff, 1988), tt. 7–28.

²⁷ Edwards, *Gŵyl Gwalia*, t. 191, 253–6. Gweler tt. 228–9 am hanes cantata 'Tywysog Cymru' Owain Alaw a Cheiriog, a'i 'dderbyniad ecstatig' ym 1862.

‘Llew Llwyvo ... the Welsh national anthem ‘God bless the Prince of Wales’, as well as the song by Talhaiarn, ‘Y Corn Hirias’, specially composed for the occasion’.²⁸ Ym 1871, canwyd y ‘national song’ gan neb llai na Owain Alaw mewn cyngerdd fawr yng Nghaer, ‘an audience of 1,600 joining heartily’,²⁹ ac ym 1887 yn Neuadd Brenhinol Albert perfformiwyd y gân gan ‘tenor cenedlaethol’ Eos Morlais (Robert Rees, 1841–1892) ar achlysur Eisteddfod Llundain.³⁰

Er mai weddol byrhoedlog oedd poblogrwydd yn ‘God Bless the Prince of Wales’, er mai more hirhoedlog y byddai ‘Rhyfelgyrch Gwŷr Harlech’, er mor boblogaidd oedd ‘Hen Wlad fy Nhadau’ fel ‘cân yr Eisteddfod’,³¹ byddent i gyd yn ddarostyngol i’r anthem genedlaethol.³² Rhydd yr adroddiad islaw o ddathlu’r Nadolig o gwmpas coeden anferth rhwysgfar yn ysgol Llanbedrgoch ddarlun inni o uchafbwyntiau bywyd ysgol plant Oes Victoria, y dathliadau a fyddai wedi aros yn eu cof ac wasanaethent i sefydlu normau rhywedd a chysylltu Cymru a’r Gymraeg â brenhiniaeth ac Ymerodraeth – gyda gwrthrychau a chaneuon. Buont yn hen gyfarwydd â dwy gorws canolog y degawd yn ogystal â’r anthem genedlaethol. Wedi araeth gan y Ficer, W. Williams (Tyddyn), gwahoddwyd y plant:

in rotation to walk round the tree to fix their choice ... This ceremony having been gone through, the four youngest girls in school were called forward, and each was presented with a big doll by Mrs. Williams dressed *alamode*. She afterwards distributed cravats, collars and ornaments amongst several children and people not belonging to the fête. ... ‘Hen Wlad fy Nhadau’ and ‘God Bless the Prince of Wales’ were effectively sung by the children, the company joining in the chorus; and at the finale, the ‘National Anthem’ was sung, and the children in marching out were each presented with an orange by the young ladies. No doubt the prizes distributed will be

²⁸ *The Wrexham and Denbighshire Advertiser*, 20 February 1864; ond gweler Jobbins, *The Welsh National Anthem*, tt. 18–20.

²⁹ *Wrexham and Denbighshire Advertiser*, 23 December 1871.

³⁰ Hywel Teifi Edwards ac E. G. Millward, *Jiwbilî y Fam Wen Fawr 1887 Victoria 1897* (Llandysul, 2002), t. 12.

³¹ R. Griffiths, ‘Hen Wlad fy Nhadau in its Musical Context’, tt. 14–15.

³² Fel yr uchod, t. 15.

long preserved by the children as souvenirs of the treat. ... The school was lately neatly repaired, and additional accommodations made at Mrs Williams's sole expense. The newly built porch contributes much to the comfort of the school. More convenient approaches have been made and the playground walls have been repaired. These are sufficient indications of the interest which the Tyddyn family take in the school.³³

Hoffwn wedi gweld wynebau'r merched bach wrth dderbyn y dolis ac ymateb y teuluoedd wrth iddynt weld yr orenau, o bosib am y tro cyntaf yn eu bywydau.

Erbyn diwedd y ganrif, roedd 'Hen Wlad fy Nhadau' wedi magu statws gân eiconig i'r raddau iddi gael ei pherfformio y tu allan i Gymru o flaen y frenhiniaeth: Tywysog Cymru yn Llundain ar 12 Awst 1887 pan aeth yr Eisteddfod yno 'i daenu ei thrysorau ger gorseddfainc Victoria', a'r 'prins' (fel y myn Hywel Teifi Edwards ei alw) yn 'codi ar ei draed',³⁴ a chan y 'Welsh Ladies Choir' yn Osborne House o flaen y Frenhines Victoria.³⁵ Dadansoddasid perfformiadau felly megis llwyddiant i'r gân a chydabyddiaeth diwylliant y Cymry,³⁶ ac i ryw raddau mae hyn yn wir, gan i gydnabyddiaeth y Goron o'r gân ganiatáu i'r Cymry ei hystyried yn 'genedlaethol'. Eto i gyd, fel yr eisteddfod ei hun, sylwer ar y 'frenhinol' sydd yn dal i fod yn enw cofrestredig yr elusen 'Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru',³⁷ dynododd y perfformiadau bod hon yn genedlaetholdeb gyfrannol at gyfoeth diwylliannol yr uned wleidyddol ehangach, un nad oedd yn peryglu'r *status quo*, yn arteffact ecsotig ac adloniadol, megis y cyri byddai Victoria yn mwynhau wedi iddi droi yn Ymerodres India ym

³³ *North Wales Chronicle and Advertiser*, 21 January 1865.

³⁴ Edwards a Millward, *Jiwbilî y Fam Wen Fawr*, tt. 10, 12; R. Griffiths, 'Hen Wlad Fy Nhadau in its Musical Context', t. 15.

³⁵ Fel yr uchod, t. 15.

³⁶ G. Griffiths, tt. 41-1; Jobbins, *The Welsh National Anthem*, tt. 20-21.

³⁷ Charity Commission for England and Wales, Charity Number 217191. <https://register-of-charities.charitycommission.gov.uk/charity-search/-/charity-details/219171/full-print> <Cyrcwyd 15 Tachwedd 2022>. Rhestrir o dan 'Other Names' y 'working name Eisteddfod Genedlaethol Cymru'.

1877,³⁸ un o lawer o arferion a thraddodiadau a gyfranodd at frithwaith amryliw teulu'r Ymerodraeth. Ym mlwyddyn jibwbilî 1887, bu hyd yn oed cenedlaetholwyr y cyfnod yn disgrifio'r Cymry fel 'subordinate' i'r 'master element' Seisnig.³⁹

Fel y mae Rhidian Griffiths wedi dangos, ceir rhagor o enghreifftiau o berfformio 'Hen Wlad fy Nhadau' fel 'anthem genedlaethol' yn ystod yn 1880au a 1890au. Yng Nghaerdydd, daeth cinio blynyddol cangen Birchgrove y 'British Steel-Smelthers Association' i ben drwy ganu 'Hen Wlad fy Nhadau' yn unig.⁴⁰ Ym 1893 cafwyd cywn gan y *London Kelt* am berfformiad y 'national anthem' ar ffurf ychydig yn wahanol:

Hen Wlad fy Mamau

Last week at a Welsh concert in the Metropolis where the 'New Woman' reigned supreme, and that thing 'man' had to be a mere vulgar onlooker, the National Anthem of our beloved country was rendered as 'Hen wlad ein mamau'! Evidently the deeds performed by our fathers are not to be praised after this, and the others of Gwalia will take to the honoured post.⁴¹

Roedd golygydd y papur newydd yn amlwg wedi cael braw wrth brofi ton cyntaf ffeministiaeth Gymreig! Ym 1895, dathlwyd y wasg Ffrengig am adroddiad ar eisteddfod Llanelli llawn 'a most profound sympathy and a spirit of eager appreciation', ac am brintio fersiwn Ffrangeg o'r 'Welsh national song Hen Wlad fy Nhadau', gan ei chymharu ag anthem genedlaethol Ffrainc 'La Marseillaise'.⁴²

³⁸ Nina Martyrys, 'Queen Victoria's Unlikely Bond with Indian Attendant made Curry Classy', yn *The Salt: What's on your Plate*, <https://www.npr.org/sections/thesalt/2017/10/29/560395263/queen-victorias-unlikely-bond-with-indian-attendant-made-curry-classy> <Wedi cyrchu 15 Tachwedd 2022>.

³⁹ Yn Edwards a Millward, *Jiwbilî y Fam Wen Fawr*, t. 10.

⁴⁰ *South Wales Daily News*, 9 December 1891.

⁴¹ *The London Kelt*, 23 November 1895.

⁴² *Llangollen Advertiser*, 25 October 1895.

Eto i gyd, fel y tynnai'r ganrif i'w therfyn, ac o dan ddylanwad Jwbilâu 1897 y Frenhines Victoria a ddathlwyd yn frwd gan y Cymry,⁴³ parhawyd i ganu'r ddwy gân ochr yn ochr, neu *God Save the Queen* yn unig. Mae adroddiad dathliadau'r Jiwbilî Diemwnt yn Llanfechell yr un more arwyddocaol o'r *Zeitgeist* â'r rhai ar y 'partion stryd' a gafwyd yn Abertawe neu Wrecsam ar achlysur Jiwbilî Arian Elizabeth II ym 1977. Ym 1897, arddangoswyd pŵer a thadolrwydd bonedd cefn gwlad Cymru am y tro olaf, cyn i'r cynghorau plwyf a sefydlwyd yn sgil Deddf Llywodraeth Lleol 1894 ddiddymu eu gafael:

At Plasmynydd, on the Garreglwyd estate, on the evening of Jubilee Day was witnessed a magnificent bonfire. The tenants, with the hearty sympathy and support of Lady Reade, who contributed here as elsewhere on her estate towards the success of the denominations, superintended the undertaking. Had it not been for the fog, the huge blazing mass of fire would have been seen in Cemaes, Cemlyn, Llanfair, Llanrhyddlad and Llanfaethlu. When the burning heap was at its height the whole of the large company in its vicinity heartily joined in singing the National Anthem and 'Hen Wlad fy Nhadau'.⁴⁴

Ar achlysur ymweliad Edward Albert â Rhuthin ym 1899, canodd 600 o blant 'God Save the Queen', 'God Bless the Prince of Wales' a'r 'Welsh National Anthem' un ar ôl y llall.⁴⁵ O astudio'r wasg a chofio bod hyd yn oed aelodau blaenllaw mudiad Cymru Fydd yn gefnogwyr brwd Ymerodraeth a oedd erbyn hyn mewn perygl o du gweriniaethau'r Boer yn ne Affrica, nid yw hi'n syndod fod sôn am 'Welsh National Anthem' neu ei pherfformio yn gallu arwain at ymryson hallt. Ym mis Chwefror 1897 ymatebodd un o ddarlennwyr y *Western Mail* yn chwyrn i adroddiadau ar ddathliadau canmlwyddiant Glaniad y Ffrancod:

that 'the English and Welsh National Anthems were sung on this occasion'. If by this they mean that 'God Save the Queen' and 'Hen Wlad fy Nhadau' were sung, they are quite right, but it is perfectly wrong to invest 'Hen Wlad fy Nhadau' with the dignity of a Welsh national anthem. This it has never been, and never, it is to be hoped, will

⁴³ Gweler Edwards a Millward, *Jiwbilî y Fam Wen Fawr*, tt. 29–46, am ddisgrifiad manwl gwerthfawr.

⁴⁴ *The North Wales Chronicle and Advertiser*, 3 July 1897.

⁴⁵ *The North Wales Times*, 29 April 1899.

be ... ‘Hen Wlad fy Nhadau’ expresses disloyalty and revenge, and re-opens ancient sores which the hand of time has healed. In fact, it is more the song of a band of Welshmen breathing threatenings and slaughter in wild Saxon times than the expression of the loyalty of a peace-loving and law-abiding people under the beneficent rule of the best of Sovereigns. We shall be very much surprised if Welsh bards let the present year go by without making an effort to produce an anthem worthy of Wales and the occasion.⁴⁶

Ni fyddai'r awdur wedi bod yn hapus gyda pherfformiad enwog yr anthem ar ddechrau gêm rygbi enwog 16 Rhagfyr 1905 rhwng tîm cenedlaethol Cymru a'r *New Zealand All Blacks*, a gychwynwyd gyda chanu ‘Hen Wlad fy Nhadau’, gan ddechrau'r proses o'i throi yn anthem gemau rygbi, boed y gynulleidfa yn Gymry Cymraeg neu heb fedru'r iaith.⁴⁷

Ailysgrifennu

Mae alawon megis blodeulestri, yn cyfleu strwythur a ellir ei lenwi â blodau gwahanol i gyfleu amrywiad o ystyron neu deimladau: rhosynnau am gariad, y lili wen am gof annwyl, y blodyn cof am hiraeth cariad, sbrigiau o binwydd am y Nadolig. Mae'n hen hysbys bod baledi wedi eu hysgrifennu a hysbysebu ar ‘tôn’ neu ‘alaw’ adnabyddus oddi ar y cyfnod modern cynnar hyd at y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid yw'n syndod, felly, bod alawon poblogaidd megis ‘Hen Wlad Fy Nhadau’ ‘Rhyfelgyrch Gwŷr Harlech’ ynteu wedi eu llenwi â geiriau addas i achlysuron mawr ac er pwrpasau gwleidyddol amrywiol.

Dangoswyd yn fanwl gan John Ellis sut y rhoddwyd traddodiadau a mawrion y Cymry yng ngwasanaeth y frenhiniaeth ar achlysur arwisgo rhwysgfawr y tywysog Edward, Edward VIII wedyn, ar 13 Gorffennaf 1911 yng Nghastell Caernarfon, a soniwyd ganddo am ganu'r

⁴⁶ *The Western Mail*, 26 February 1897.

⁴⁷ Gareth Williams, ‘Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd yng Nghymru 1880–1914’, yn *1905 and All That: Essays on Rugby Football, Sport and Society* (Llandysul, 1991), tt. 90–110; Neil Evans a Paul O’Leary, ‘Playing the Game. Sport and Ethnic Minorities in Modern Wales’, yn Charlotte Williams, Neil Evans and Paul O’Leary (goln), *A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales* (Cardiff, 2002), tt. 158–160, Jobbins, *The Welsh National Anthem*, t. 22.


‘Welsh national anthem’ sawl gwaith,⁴⁸ ond heb sylwi ar y geiriau newydd ar y dôn boblogaidd. Comisiynasid y bardd lleol Abraham Thomas i gyfansoddi geiriau addas i’r achlysur, a brintiwyd fel hysbyslen *Urddwisgiad Ei Uchelder Breninol Tywysog Cymru yn Nghaernarvon, 1911. Gan Abraham H. Thomas, Y. H. (Crymlyn), Llansamlet. Ton: Hen Wlad Fy Nhadau.*⁴⁹ Dosbarthwyd y daflen cyn y seremoni fawr i’r gynulleidfa gysylltu eu tywysog â’u gwlad drwy’r weithred o’i chyd-berfformio a ‘God Save our Gracious Queen’.⁵⁰ Canmolir yn y fersiwn unoliaethol hwn fod Lloegr a Chymru ar ‘hedd parhaol’ ac fel yr hawliwyd Victoria i Gymru drwy ‘waed Harri Tudur’,⁵¹ y try ‘Iorwerth’ yn ‘olynydd urddasol’ i Llywelyn a phob arwr Cymreig. Dadansoddir arwyddair Almaeneg y tywysog ‘Ich Dien’ i olygu ‘Eich Dyn’; a yn bwysicaf oll, o bosib, newidiodd y cytgan o ‘O byddet i’r hen iaith barhau’ i ‘O byddet i’r Undeb barhau’, gan bwysleisio teyrngarwch yn hytrach na gwladgarwch arwahanol.

⁴⁸ John S. Ellis, ‘Part 2: A ceremony for Wales: The 1911 Investiture’, in *Investiture. Royal Ceremony and National Identity in Wales, 1911–1969* (Cardiff, 2008), tt. 5, 67, 19-130.

⁴⁹ [Urddwisgiad Ei Uchelder Breninol Tywysog Cymru yn Nghaernarfon, 1911](#), Baledi Cymraeg. Casgliadau Arbennig Llyfrgell y Dyniaethau Prifysgol Caerdydd ar Internet Archive, <Cyrchwyd 15 Tachwedd 2022>.

⁵⁰ Gellir gwyllo ffilm pymtheg munud o’r Arwisgo ar <https://www.youtube.com/watch?v=J31P5ES45fw> .

⁵¹ Edwards a Millward, *Jiwbilî y Fam Wen Fawr*, t. 17; *Y Brython*, I: 1 (1858), t. 8.



Ffig. 2: Taflen Ganu Urdwisgiad Tywysog Cymru, 1911.

Tair blynedd yn hwyrach, â Phrydain Fawr ar rhyfel, dwysaodd ymdrechion yr elít i osod diwylliant y Cymry yng ngwasanaeth yr Ymerodraeth. Cyhoeddwyd rhifyn arbennig o'r *Cerddor* ar 'Caneuon Rhyfel', a byddai pob rhifyn oddi ar Medi 1914 yn rhestru caneuon i godi arian ar gyfer y 'National Relief Fund',⁵² ond nid oedd digon ohonynt, ymddengys. Ar 10 Hydref 1914, hysbysebwyd cystadleuaeth gan Jane Emily Gee, merch Thomas Gee, sefydlydd Gwasg Gee ac entrepreneur diwylliannol mwyaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru. Jane a'i brawd Howel Gee oedd golygyddion papur newydd pwysicaf Cymraeg *Baner ac Amserau Cymru* erbyn hyn. Ar batrwm cystadlaethau eisteddfodol, cyhoeddodd:

⁵² 'Caneuon a Chaniadau Rhyfel', *Y Cerddor*, XXVI: 312 (Rhagfyr 1914), tt. 1-2, clawr cefn mewnol.

Y mae hi'n blino calon Miss Gee glywed milwyr Cymraeg a bechgyn Cymru ac eraill yn canu 'It's a long way to Tipperary', a rhai cyffelyb, tra bod gennym ni fel cenedl liaws mawr o alawon milwrol a gwladgarol mor ardderchog fel 'Rhyfelgyrch Gwŷr Harlech', 'Hen Wlad fy Nhadau,' *etc.*, a chan ei bod yn tybio mai y rheswm am hyn yw diffyg geiriau cyfaddas ac amserol i'r argyfwng presennol yn hanes ein gwlad y mae hi yn cynnig gwobrau fel y canlyn: 5s. Am bennill Cymraeg poblogaidd yn gyfaddas i alaw 'Gwŷr Harlech,' ac un arall i 'Hen Wlad fy Nhadau'. 2s. 6c. am bennill gyffelyb ar 'God Save the King' ac un ar 'Marseillaise' (anthem genedlaethol Ffrainc). 2s 6c. am bennillion Saesneg ar 'Gwŷr Harlech,' a 'Hen Wlad fy Nhadau'. Disgwylir i'r penillion fod yn gyfaddas i'r amser presennol ac yn rhai y gellir yn hawdd eu dysgu a 'chodi hwyl' drwyddynt – digon syml, mewn gair, fel y gall plant eu dysgu a'u canu'n rhwydd a naturiol.⁵³

Sawl agwedd ar y gystadleuaeth hon sydd yn ennyn diddordeb. Yr oedd 'Miss Gee' yn perfformio'r rôl a ddisgwylid gan fenywod ar adeg rhyfel – i gefnogi'r ymgyrch milwrol gwrywaidd o gartref, yr *home front* – ond aeth hi ymhellach na hyn o lawer drwy osod normau'r gystadleuaeth, a fframwaith defnydd i'r cynnyrch. Nid ar gyfer corau yn perfformio cân wedi ei gosod ar gyfer y bedair llais a'r cyfeiliant yr oedd eisteddfodau yn gofyn amdanynt y bu'r caneuon newydd, ond ar gyfer 'codi hwyl' ar adeg rhyfel. Trist yw cyfuno disgwyliadau am i blant eu 'canu'n rhwydd a naturiol', a ffodus oedd y bechgyn a'r merched a dderbyniodd orenau a chanu sawl gân 'genedlaethol' ym 1865, gan eu bod erbyn hyn yn rhy hen i martsio i'r gad gan ganu'n hwylus.

Cyhoeddwyd beirniadaeth a chynnyrch goreuon y 'gystadleuaeth ddyddorol a buddiol hon' ar 21 Tachwedd 1914. 'Llu mawr' oedd wedi ymdrechu, er nid oedd 'hyd yn oed y goreuon yn hollol foddhaol' ym marn Jane Gee.⁵⁴ Nid ansawdd y farddoniaeth oedd y problem (fel byddai rhywun yn tybio o'u darllen), ond bod y rhan fwyaf ohonynt heb y gallu i 'gipio ffansi'r werin yn y modd y gwnaeth "Fall In" Harold Begbie ar eraill yn Lloegr'.⁵⁵ Nid ydy llawer o wahaniaeth rhwng y gwahanol ganeuon a brintwyd; amrywiol gyfraniadau at yr un

⁵³ *Baner ac Amserau Cymru*, 10 Hydref 1914.

⁵⁴ *Baner ac Amserau Cymru*, 21 Tachwedd 1914.

⁵⁵ Fel yr uchod

diwylliant Ymerodrol ar adeg rhyfel oeddent, wedi'r cyfan. Roedd rhai o'r penillion yn fwy gwrth-Almaenig a milwrol, fel y rhain a anfonwyd gan 'Llais Rhyddid':

Pennill Cyfaddas i 'Hen Wlad fy Nhadau'

Mae Lloegr a Chymru yn ddewr ar eu hynt,

A min y cleddyfau yn rhwygo y gwynt,

Mae distryw y gelyn yn berwi ein gwaed

Belgium sydd heddyw'n sarn draed.

Cledd, Cledd, ein bryd fo a'r cledd,

Rhag byw dan drais, cwyd lais, i lawr

A'r Caisar brwnt a'i fyddin fawr.⁵⁶

Nid oedd y fersiwn Saesneg a anfonwyd gan 'Briton' lawer gwell:

My Cambria, arise! in thy prowess of yore,

To strike at the tyrant who stays at thy door,

Thy courage and faith stand to-day to the test,

Britannia hath need of thy best.

They come! List to the sound of the drum!

My stalwarts all, at their country's call,

To conquer, to conquer, or fall.

Fel yng nghynifer o gyngherddau, eisteddfodau a chyfarfodydd llenyddol oddi ar y 1860au, clymwyd y gwahanol ganeuon 'gwladgar' at ei gilydd yn un yn yr hysbyseb a chan y cystadleuwyr. Anfonodd 'Briton' 'Pennill ar Alaw Gwŷr Harlech' hefyd, a gysylltai milwyr Cymreig ag Oliver Cromwell drwy eu galw'n 'Britain's Ironsides', yn ogystal â chysylltu Cymru â'r Ymerodraeth trwy agor: 'From the fairy dells of Cambria, To the mighty hills of India / Rings the bugle of Britannia, Calling to the fight.'⁵⁷ O ddarllen y bennill, mae rhywun bron â medru gweld y swyddogion Prydeinig yn gorchymyn i'r Gurkhas aberthu eu hunain ar lethrau'r Khyber. Barn Jane Gee ar y cyfan oedd eu bod yn 'gall a sylweddol', ond:

⁵⁶ Fel yr uchod.

⁵⁷ Fel yr uchod.

Anodd iawn gennym gredu y buasai'r mwyafrif o'r cyfansoddiadau hyn yn boblogaidd ymhlith plant ein hysgolion. Y mae'r iaith yn rhy anystwyth a chlasurol, ac ni theimlir y 'thrill' gwladgar hwnnw a deimlir weithiau yn cyffwrdd llinynnau'r galon.⁵⁸

Nid ydwyf yn siŵr beth yw'r agwedd mwyaf trist o drefedigaethol ar y gystadleuaeth hon: y ffaith bod y traddodiad eisteddfodol wedi ei wyro at ddefnydd milwriaethus, y ffaith mai cynifer o Gymry a ymatebodd i'r galwad, neu'r ffaith bod cymaint o sôn am swyno plant i edmygu rhyfel ymerodrol ynghlwm wrth y cyfan. Mae yno dystiolaeth i ganeuon felly gael eu perfformio gan blant. Mae Elvet Thomas yn cofio dathlu Gŵyl Ddewi yn ystod y Rhyfel Mawr drwy ganu 'anthemau cenedlaethol y Cynhgreiriaid – ac os gellid cael geiriau Cymraeg i'r anthemau, byddai'n eitha' priodol eu canu yn yr Ŵyl Gymraeg'.⁵⁹ Tybed a oedd yr arfer hwn yn dilyn galwadau Adran Gymreig Bwrdd Addysg Prydain Fawr oddi ar 1914 i ddefnyddio dathliadau Ddydd Gŵyl Ddewi yn ysgolion 'yr *hen wlad*' i atgoffa disgyblion yr 'oldest part of the Empire' at eu dyletswyddau tuag ati.⁶⁰

Yr Eflit ac Eilunau Cenedlaethol yng Ngwasanaeth yr Ymerodraeth

Erbyn ddechrau'r ugeinfed ganrif roedd llinellau cyntaf a theitlau'r gân genedlaethol 'Hen Wlad fy Nhadau' a 'Land of my Fathers' wedi ennill statws mor eiconig â bod yn llaw-fer am ysbryd cenedlaethol y Cymry. Fel llawer arteffact diwylliannol, agorodd hyn y bosibilrwydd o'u defnyddio ar gyfer amrywiol ddibenion. Ym 1914 'codi hwyl' dros a chefnogi ymdrech y Rhyfel Mawr oedd y pwrpas mwyaf. Fel ym mhob ran y Deyrnas Gyfunol a'r Ymerodraeth, sefydlasid pwyllgorau llu er cefnogi'r ymdrech hwn o gartref.⁶¹ Yng Nghymru cadeiriwyd y

⁵⁸ Fel yr uchod.

⁵⁹ W. C. Elvet Thomas, *Tyfu'n Gymro* (Llandysul, 1972), tt. 113–14.

⁶⁰ Gwyn Jenkins, 'Schools in Wartime', yn *A Welsh County at War. Essays on Ceredigion at the Time of the First World War* (Talybont, 2021), tt. 116–17, 118.

⁶¹ Carol Harris, '1914-1918: How charities helped to win WW1', ar *Third Sector* <https://www.thirdsector.co.uk/1914-1918-charities-helped-win-ww1/volunteering/article/1299786> <Cyrchwyd 15 Tachwedd 2022>. Ymhlith rhain oedd y 'National Fund for Welsh Troops', y 'Welsh Troops Children Fund' a'r 'London Welsh Belgian Refugees Fund'.

‘Welsh National Fund’ gan Margaret Lloyd George, gwraig Canghellor y Trysorlys (a Gweinidog Arfau Rhyfel cyn bo hir) David Lloyd George, ac yn awyddus i brofi mai ei phwyllgor hi ddylai cynrychioli Cymru ar y *British Council of Voluntary Organisation*. Ym mis Hydref 1915, adroddwyd:

Mrs. Lloyd George presided on Monday at a meeting of the committee of the Welsh National Fund. It was reported that the committee had considered the scheme of coordination of voluntary effort which had been issued by Sir Edward Ward, Director-General of Voluntary Organisation, and had informed Sir Edward that ‘Mrs. Lloyd George and the committee ... [are] in possession of funds. It has already despatched comforts to practically every Welsh unit in existence, and is peculiarly competent to deal with the needs of Welsh regiments.’ Therefore, the committee felt that they ought to be recognised as the central committee for Wales.⁶²

Ond sut oedd y pwyllgor wedi dod o hyd i’r ‘funds’? Gan efelychu’r teulu brenhinol ac elít rhannau eraill y Deyrnas Gyfunol defnyddiasent wasg oedd wedi hen baratoi’r boblogaeth at y rhyfel ac a oedd nawr yn cefnogi’r ymdrech drwy gystadlaethau fel un *Baner ac Amserau Cymru* a rhifynnau arbennig fel rhai *Y Cerddor*. Ym 1914, er enghraifft, cyhoeddassid *Princess Mary’s Gift Book. All Profits from the Sale are Given to the QUEEN’S WORK FOR WOMEN’S FUND which is Acting in Conjunction with the National Relief Fund* gan Hodder and Stoughton, yr un cyntaf mewn cyfres a fyddai’n ymestyn y tu hwnt i ddiwedd y rhyfel.⁶³ Antholeg o straeon byrion, barddoniaeth a darluniadau ymerodrol ydoedd, er codi arian a hwyliau gwladgarol teuluoedd teulu’r cenhedloedd. Ar y blaen atgynhyrchwyd portread o’r tywysoges Mary a cherdd a alwai am gyfraniad yr Ymerodraeth:

O Canada! A drum beats through the night and day,
Unresting, eager, strident, summoning,
To arms. Whose drum thus throbs persistent?
Whose? Old England’s, Canada, Old England’s drum. ...

⁶² *Flintshire Observer and News*, 21 October 1915.

⁶³ *Princess Mary’s Gift Book. All Profits from the Sale are Given to the QUEEN’S WORK FOR WOMEN’S FUND which is Acting in Conjunction with the National Relief Fund* (London–New York–Toronto, 1914). Ceir copi ar yr ‘Internet Archive’.

Oh Canada! What answer make to calling voice and beating drum,
 To sword flash and to pleading prayer of God
 For right? What answer makes my soul?
 ‘Mother, to thee! God, To Thy help! Quick! My Sword!’⁶⁴

Sylwer sut, fel yn achos ‘Hen Wlad fy Nhadau’, defnyddir cysyniad y teulu i ddelweddu uned genedlaethol a phwysleisio dyletswyddau.⁶⁵ Blwyddyn yn ddiweddarach cyhoeddwyd gan Hodder and Stoughton ddwy gyfrol o’r enw *Gwlad Fy Nhadau. Rhodd Cymru i’w Byddin a Land of My Fathers. A Welsh Gift Book*, y ddau yn efelychu llyfr rhodd tywysoges Mary yn agos o ran yr amcan i godi arian i’r ‘National Fund for Welsh Troops’, fframwaith y cynnwys a nawdd. Agorwyd y ddwy â rhagair gan Margaret Lloyd George, a chymeradwyaeth ei gŵr David Lloyd George. Campwaith menywod yr elît oedd y cyfrolau – ag Arglwyddes Plymouth yn Llywydd, Margaret Lloyd George yn Gadeirydd, a boneddigesau megis Arglwyddes Ninian Crichton-Stuart ac Arglwyddes Glanusk ar y pwyllgor. Trysorydd Mygedol y ‘National Fund for Welsh Troops’ oedd Syr Vincent Evans (1851–1934), Ysgrifennydd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion a golygydd trafodion yr eisteddfod genedlaethol oddi ar y 1880au hwyr, ac yn ystod y Rhyfel Mawr ‘canolbwynt gweinyddol i lu o weithrediadau gwladgarol’.⁶⁶ Golygyddion y ddwy gyfrol, fel yr adroddwyd yn falch, oedd dau deallusyn canolog y genedl: Athro’r Gymraeg John Morris Jones ac Athro’r Saesneg William Lewis Jones.⁶⁷

⁶⁴ Ralph Connor, ‘Canada’s Word’, yn yr uchod, t. 22.

⁶⁵ O’Leary, ‘Ieithoedd Gwladgarwch’, t. 511.

⁶⁶ T. Jones, ‘EVANS, EVAN (Syr EVAN VINCENT EVANS yn ddiweddarach) (1851 - 1934), eisteddfodwr ac ysgrifennydd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion’, *Y Bywgraffiadur Cymreig*, <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-VIN-1851> <Cyrchwyd 15 tachwedd 2022>.

⁶⁷ *Cambrian Daily Leader*, 13 October 1915; *Yr Adsain*, 26 Tachwedd 1915.

National Fund for Welsh Troops

TO PROVIDE ADDITIONAL COMFORTS FOR
WELSH REGIMENTS AT HOME AND ABROAD

President:
COUNTESS OF PLYMOUTH

LADY NINIAN CRICHTON-STUART
HON. VIOLET DOUGLAS-PENNANT
LADY EDWARDS

Hon. Treasurer:
SIR E. VINCENT EVANS

Executive Committee:

LADY GLANUSK
MRS. ELLIS GRIFFITH
HON. LADY HERBERT

Chairman of Committee:
MRS. LLOYD GEORGE

MRS. REGINALD MCKENNA
LADY BEATRICE ORMSBY-GORE
MRS. PRYCE-JONES

Hon. Secretary:
WILLIAM LEWIS

RHAGAIR

CYHOEDDIR y llyfr hwn ar ran Cronfa Genedlaethol y Milwyr Cymreig, sydd yn darparu cysuron ychwanegol i Gatrodau Cymreig gartref ac oddicartref; ac y mae diolch arbennig y Pwyllgor yn ddyledus i'r Athro Morris Jones a'r Athro Lewis Jones, a wnaethant gyfraniad mor hael o'u hamser a'u galluoedd trwy baratoi *Gwlad fy Nhadau*.

Os bydd i rywun o ddarllenwyr y tudalennau hyn glywed ar ei galon anfon cyfraniad ar wahan i Gronfa Genedlaethol y Milwyr Cymreig, bydd yn hyfryd gennyf ei dderbyn a'i gydnabod os cyfeirir ef i mi, c/o Hodder & Stoughton, St. Paul's House, Warwick Square, London, E.C.

Margaret Lloyd George

Cadeirydd y Pwyllgor.

Cymeradwyaf y llyfr hwn i bob Cymro ledled y byd.

W. Lloyd George

Ffig. 3: Tudalen Blaen Hen Wlad fy Nhadau (copi'r awdures)

Cyfrolau deniadol iawn, llawn delweddau lliwgar, barddoniaeth a rhyddiaith ddiddorol yw rhain, wedi eu hanelu at deuluoedd a'u plant, i'w prynu, mwynhau a thrysori. Tystia'r copïau sydd yn dal i oroesi yn i'w amgryhaeddiad eang; eiddo i Winifred Owen o Rhostryfan oedd fy nghopi Cymraeg. Ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhyngddynt o ran delweddu hanes a diwylliant y Gymru Geltaidd, gan iddynt gael eu cynllunio fel bod 'tua thri chwarter y mater

yn ymateb yn y ddwy gyfrol'.⁶⁸ Cyfraniad Cymreig at ymdrech diwylliannol a milwrol ehangach teulu cenhedloedd yr Ymerodraeth oeddent, wedi'r cyfan. Ar y clawr oedd Owain Glyn Dŵr, y tu fewn oedd cyfraniadau a ddychmygai Cymru fel gwlad Geltaidd rhamantus â thraddodiad milwriaethus balch, bron inni feddwl am y ddamcaniaeth drefedigaethol o hil milwriaethus a gymhathwyd at y Gurkhas.⁶⁹ Wrth gwrs ceir yma y gân eiconig genedlaethol a gyflenwai'r teitlau, gyda geiriau Saesneg newydd gan yr Athro William Lewis Jones yn y ddwy, yn ogystal â 'Rhyfelgyrch Gwŷr Harlech' ('March of the Men of Harlech'). Yn gyffredin i'r ddwy gyfrol hefyd oedd y deunydd canoloesol a chwedlonol, o 'Ynys Prydain' gan Sieffre o Fynwy, 'Mabinogi Branwen Ferch Lŷr', a hanesion am Fuddug, Llywelyn ac Owain Glyn Dŵr hyd at farddoniaeth Dafydd ab Gwilym a 'Chwedl Llyn y Fan'. Ceir ychydig o wahaniaeth yn y rhannau 'modern', gan atgynhyrchu ffefrynnau o straeon a barddoniaeth a fyddai wedi bod yn wahanol i siaradwyr Cymraeg a Saesneg, megis barddoniaeth Eben Fardd a Cheiriog, ac yn y gyfrol Saesneg William Wordsworth, â'i 'The Struggle of the Britons against the Barbarians' yn portreadu'r Cymry gwar megis y milwyr Cristnogol cyntaf.⁷⁰ Gorffenna'r ddwy â deunydd diweddar ac areithiau ymerodrol megis 'Dyled Prydain i'r Celt' ('The Influence of the Celt in the Making of Britain') gan Thomas Ellis, a 'Dyled y Byd i Genhedloedd Bychain' ('The World's Debt to Little Nations') gan David Lloyd George.

Nid oedd gwahaniaeth yn y darluniadau cyfoethog o ddeunaw o blatiau lliw rhwng y ddwy gyfrol. Egyr hwy gyda 'Deffroad Cymru' ('The Awakening') gan Christopher Williams – diddorol byddai ystyried ymateb teuluoedd 1915 i'r llun hwn – a cheir ochr arall ar ei wladgarwch gyda'i 'Arwisgiad Tywysog Cymru' ('The Investiture of the Prince of Wales'), y ddarlun olaf ond un yn y ddwy gyfrol.⁷¹ Atgynhyrchir lluniau rhamantus artistiaid enwog y cyfnod, megis 'Branwen' gan Talbot Hughes a 'Rhiain Llyn y Fan' gan Margaret Lindsay

⁶⁸ J. Morris Jones, 'Rhagymadrodd', yn *Gwlad Fy Nhadau. Rhodd Cymru i'w Byddin* (London–New York–Toronto, 1915), t. 5.

⁶⁹ Heather Streets, *Martial Races: the Military, Race, and Masculinity in British Imperial Culture, 1857–1914*, (Manchester, 2004).

⁷⁰ Williams Wordsworth, 'The Struggle of the Britons against the Barbarians', yn *The Land of my Fathers. A Welsh Gift Book* (London–New York–Toronto, 1915), t. 5.

⁷¹ Peter Lord, *Diwylliant Gweledol y Cymry. Delweddu'r Genedl* (Caerdydd, 2000), tt. 333-6.

Williams,⁷² a delweddau a ddengys ystyriaeth yr elît Cymreig o rannau gwahanol y byd, megis ‘Pysgotwyr: Llydaw’ (‘Fisher Folk: Brittany’) a ‘Carchar ym Morocco’ (‘A Moorish Prison’). Cloir cyfrolau gyda ‘Poster Rhyfel’ (‘War Poster’) Frank Brangwyn,⁷³ â theulu yn ganolog iddo – y baban ym mreichiau’r fam – tra bod swyddog y fyddin yn denu sylw’r tad at ddiodefaint ffoaduriaid yn y cefndir, a’r meirwon wrth eu traed.

Athrylith oedd galw’r cyfrolau yn ôl eilun o gân oedd wedi dod i sefyll dros Gymru ac yn aswyno atgofion mil o eisteddfodau a chyfarfodydd canu, pawb yn sefyll ochr yn ochr i ganu’r ‘corws cenedlaethol’. Drwy brynu a thrysori’r gyfrol, byddai teuluoedd Cymru yn cyfrannu at gronfa genedlaethol i’r milwyr Cymreig, ac yn sefyll ochr yn ochr â phob milwr ym myddinoedd teulu’r Ymerodraeth. Erys y cyfrolau, felly, fel y gân ‘Hen Wlad fy Nhadau’, yn arddangosyddion teyrngarwch y Cymry i frenhiniaeth ac Ymerodraeth, yn rhan o’r wladgarwch deuol hwn a ddechreuodd ym 1536, gan gyrraedd ei anterth gyda’r Rhyfel Mawr. Wedi ei chreu a phoblogeiddio gan ffigyrau canolog diwylliant cenedlaethol y Cymry, perfformiwyd y gân yn frwd ar y cyd ag anthem genedlaethol Prydain Fawr, ail-ysgrifennwyd hi i fynegi teyrnged i dywysogion estron a chodi hwyl milwrol, a defnyddiwyd hi fel llaw-fer cenedligrwydd cyfrannol, darostyngol y Cymry hyd at y Rhyfel Mawr. Dechreuwyd bennod newydd yn hanes Ewrop gyda Chynhadledd Heddwch Versailles 1919, gyda rhaniad Iwerddon ym 1921 a dechreuadau mudiad protest di-drais Mahatma Gandhi yn India, a symudodd yr Ymerodraeth at ei phennod olaf. Yng Nghymru, trodd gweithwyr o Ryddfrydiaeth at Sosialaeth, sefydlodd dyn ifanc o’r enw Ifan ab Owen Edwards Urdd Gobaith Cymru Fach, mudiad ieuenctid oedd am wrthsefyll ideoleg imperialaidd y *Boy Scouts*,⁷⁴ a chrëwyd y Blaid Genedlaethol Cymru gyntaf gan garfan fychan o ddeallusion. Ni fyddai ‘Hen Wlad fy Nhadau’ yn cael ei defnyddio yn yr un ffordd ymerodrol yn yr ugeinfed ganrif eto.

Marion Löffler

Caerdydd

⁷² Angela Gaffney, ‘Wedded to her Art’. *Margaret Lindsay Williams 1888–1960* (Aberystwyth, Steph Davies, *Margaret Lindsay Williams* (Aberystwyth, 1999), tt. 11-12.

⁷³ Lord, *Diwylliant Gweledol y Cymry. Delweddu’r Genedl*, t. 380.

⁷⁴ Marion Löffler, “‘Foundations of a nation’: The Welsh League of Youth and Wales before the Second World War”, yn *The Welsh History Review*, 23: 1 (2006), tt. 74-105.